## Yr Holocost a Chymru

# Kindertransport 4
**Bywyd yng Nghymru**

**Nodiadau i Athrawon**

Adnodd 4 o 4 yw hwn ar destun Kindertransport a gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r 3 adnodd arall. Mae'r adnoddau'n archwilio hanesion plant a oedd yn ffoaduriaid a ddaeth ar y Kindertransport i Gymru.

**Mae'r pedwerydd adnodd hwn yn archwilio amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru lle'r oedd plant oedd yn ffoaduriaid yn byw ac effaith y Kindertransport ar hanes lleol yng Nghymru. Mae hefyd yn gyfle i fyfyrio ar y wybodaeth a gafwyd yn y tri adnodd Kindertransport blaenorol.**

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am y Kindertransport a ble i ddarganfod mwy
- Diffiniad defnyddiol: 'hanes lleol'
- Map Gwag o Gymru
- Taflenni gwybodaeth am blant oedd yn ffoaduriaid:
    - Renate Collins
    - Lia Lesser
    - Heinz Lichtwitz
    - Castell Gwrych
    - Ysgol Wladol Tsiecoslofacia

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), 'Diffinio'r Holocost', cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost.

**Nodau dysgu:**

- Deall pwysigrwydd 'hanes lleol' a'i gysylltiadau â hanesion eraill, gan gynnwys rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol
- Archwilio'r ystod o leoliadau ledled Cymru lle'r oedd Kindertransportees yn byw a deall sut mae'r straeon hyn wedi siapio hanes lleol yng Nghymru
- Datblygu meddwl beirniadol ac ymdeimlad o empathi gyda'r rhai sydd wedi profi dioddefaint yn y gorffennol
- Archwilio pwysigrwydd y stori hon i Gymru a'r byd ehangach a'i chysylltiadau â materion cyfoes, gan gynnwys ffoaduriaid, gwrth-semitiaeth, rhagfarnllyd a hiliaeth

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

### Y Pedwar Diben

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:

- datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau
- gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau
- gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdanyn nhw
- ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

Gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:

- cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch
- meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau

Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:

- canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol

Unigolion iach, hyderus sydd:

- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau

### Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Prif Faes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau
Cam cynnydd: 3 & 4

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol

Meysydd Dysgu a Phrofiad Eraill:

Iechyd a Lles
- Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd

**Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol**

Llythrennedd
- Datblygu llafaredd trwy drafodaeth, chwarae rôl, cwestiynu a chyflwyniadau, ac addasu sgiliau llafaredd ar gyfer cynulleidfa a diben tra'n gwrando ar, a dadlau, gwahanol safbwyntiau
- Datblygu pob arddull ysgrifennu, e.e. disgrifio, esbonio, trafod, gwerthuso ac ysgrifennu creadigol, ynghyd â defnyddio terminoleg a geirfa sy'n benodol i'r ddisgyblaeth
- Sicrhau mynediad ac archwilio ystod o destunau o amrywiol leoedd a chyfnodau er mwyn dadansoddi tystiolaeth, meddwl yn feirniadol, dod i gasgliad, a gwerthuso dehongliadau a safbwyntiau

Creadigrwydd ac arloesedd
- Annog bod yn agored i wahanol syniadau a ffyrdd o feddwl, gan alluogi mynegi barn resymedig ynghylch y gwahaniaethau hyn

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol a deall y gorffennol a'r presennol yn ogystal â dychmygu dyfodol posib
- Casglu, myfyrio a gwerthuso'n feirniadol y defnydd o ffynonellau a thystiolaeth

Effeithiolrwydd personol
- Gwerthuso, cyfiawnhau a mynegi ymatebion ystyriol mewn amrywiol ffyrdd

**Themâu trawsgwricwlaidd**

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh):

- Mae'r deunydd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau, a safbwyntiau crefyddol yn ymwneud â pherthnasoedd
- Mae'n cefnogi dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol â materion ACRh lleol, cenedlaethol a byd-eang yn y gorffennol a'r presennol, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus

Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth (e.e., gwahaniaethu, hiliaeth, gwrth-semitiaeth, ffoaduriaid)

- Mae'r dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthoedd democrataidd a hawliau dynol ac yn myfyrio ar eu cyfrifoldebau dinesig

**Cynefin – cefnogi dysgu mewn cyd-destunau lleol**

Mae'r Holocost yn bwnc mawr sy'n gallu ymddangos yn ddieithr i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r adnoddau hyn yn galluogi dysgwyr i glywed straeon pobl a gafodd eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr Holocost, ac a oedd yn byw yng Nghymru. Dyma straeon pobl a gyfrannodd at eu cymunedau Cymreig lleol, ac a oedd yn rhan ohonyn nhw. Fe wnaethant ymgartrefu yma a magu teuluoedd yma, ac mae eu hanes yn rhan o stori Cymru.

Mae dysgu am yr Holocost trwy enghreifftiau lleol yn galluogi dysgwyr i ddarganfod eu hetifeddiaeth a datblygu ymdeimlad o le a chynefin. Mae hefyd yn cael gwared ar y syniad o 'arwahanrwydd' - bod hyn wedi digwydd i bobl eraill mewn lle ac amser arall - ac yn hytrach yn creu teimladau o gysylltiad ac empathi. Gall yr enghreifftiau lleol hyn helpu dysgwyr i ddeall y cysylltiad rhwng hanes Cymru a digwyddiadau byd-eang fel yr Ail Ryfel Byd a'r Holocost.

Y rhestr lawn o 20 adnodd am Yr Holocost a Chymru yw:

- Kindertransport 1: Bywyd Iddewig yng Nghanolbarth Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd
- Kindertransport 2: Y daith i Brydain
- Kindertransport 3: Cyrraedd Cymru
- Kindertransport 4: Bywyd yng Nghymru
- Kristallnacht 1: Atgofion o Kristallnacht
- Kristallnacht 2: Y bar mitzvah olaf
- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru 1: Josef Herman
- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru 2: Heinz Koppel
- Aero Zipp Fasteners yn Ystad Fasnachu Trefforest
- General Paper and Box Manufacturing Company yn Ystad Fasnachu Trefforest
- Caethiwo 'estron-elynion' 1
- Caethiwo 'estron-elynion' 2
- Ffoaduriaid Iddewig fel gweision domestig
- Meddygon, deintyddion a nyrsys yng Nghymru oedd yn ffoaduriaid Iddewig
- Ffoaduriaid Iddewig ym Myddin Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd

- Bywyd crefyddol ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru
- Yr Iaith Gymraeg
- Rhyddid
- Hunaniaeth
- Cofio'r Holocost

**Syniadau ar gyfer gweithgareddau**

## Gweithgaredd 1

Gellid defnyddio'r adnodd i dynnu sylw at leoliadau gwahanol ffoaduriaid ledled Cymru. Dangoswch y **Map Gwag o Gymru** i ddysgwyr a gofynnwch iddyn nhw nodi lle mae eu hysgol wedi'i lleoli. Yna rhannwch y dysgwyr yn grwpiau, gan roi **Taflen Wybodaeth** wahanol i bob un. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi lleoliadau sy'n berthnasol i straeon y ffoaduriaid a'u hychwanegu at y map (gall y rhain hefyd gynnwys Bea Green a Dorothy Fleming o adnoddau Kindertransport blaenorol).

**Cwestiynau defnyddiol eraill:**

- Pam wnaeth ffoaduriaid gyrraedd y llefydd yma yng Nghymru?
- Sut y gallai ffoaduriaid fod wedi ymateb i gyrraedd pob un o'r gwahanol leoliadau?
- Sut y gallai pobl leol fod wedi ymateb i grwpiau o ffoaduriaid neu ffoaduriaid unigol yn cyrraedd eu dinas, tref neu bentref?

## Gweithgaredd 2

Gellid defnyddio'r adnodd i fireinio sgiliau ymholi'r dysgwyr. Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau a rhoi Taflen Wybodaeth wahanol i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen eu taflen ac ysgrifennu:

- y lleoliad sy'n gysylltiedig â ffoaduriaid Kindertransport
- pump ffaith/darn allweddol o wybodaeth a geir yn y daflen

Nesaf, gofynnwch i ddysgwyr lunio tabl gyda'r un penawdau (lleoliad, ffeithiau allweddol) a rhannu eu canfyddiadau gyda'r dosbarth, gyda phob grŵp yn ysgrifennu atebion y grwpiau eraill (gellid gwneud hyn yn unigol ar bapur neu ar brif sgrin/bwrdd). Gallwch rannu'r **Taflenni Gwybodaeth** gyda'r dosbarth cyfan – a yw'r dysgwyr yn gallu gweld unrhyw ffeithiau allweddol eraill?

## Gweithgaredd 3

Gellid defnyddio'r adnodd i gymharu profiadau ffoaduriaid Kindertransport gafodd eu cartrefu fel grwpiau gyda'r rhai a gartrefwyd fel unigolion. Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau a gofynnwch iddyn nhw edrych ar **Daflen Wybodaeth** sydd naill ai am unigolyn (e.e Renate Collins, Lia Lesser, Heinz Lichtwitz) <u>neu</u> grŵp o ffoaduriaid (e.e Castell Gwrych, Ysgol Gwladwriaeth Tsiecoslofacia). Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu agweddau positif a negyddol o gael eu cartrefu fel grŵp neu fel unigolyn. Er enghraifft:

| | Positif | Negyddol |
|---|---|---|
| Grŵp | Haws gwneud ffrindiau | Dim llawer o amser i'ch hun |
| Unigolyn | Ddim mor wahanol i adref | Posibiliad o beidio hoffi'r teulu maeth |

Dylid annog dysgwyr i rannu eu hatebion gyda gweddill y dosbarth. Pa leoliad fyddai'n well ganddyn nhw? Pam?

## Gweithgaredd 4

Gellid defnyddio'r adnodd i gyflwyno dysgwyr i ieithoedd eraill. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y **Daflen/Taflenni Gwybodaeth** am Heinz Lichtwitz ac Ysgol Wladwriaeth Tsiecoslofacia. Pam wnaeth Heinz anghofio ei Almaeneg? Pam roedd hi'n bwysig i blant oedd yn ffoaduriaid yn Llanwrtyd barhau i siarad Tsieceg?

Cyflwynwch y dysgwyr i'r ymadroddion syml hyn yn Almaeneg a Tsieceg a'u hannog i siarad ychydig o'r naill iaith neu'r llall.

| | Almaeneg | Tsiec |
|---|---|---|
| Helo! | Hallo!<br>*halo* | Ahoj!<br>*a-hoi* |
| Dydd da i chi<br>(Helo arall) | Guten Tag<br>*gw-ten tag* | Dobrý den<br>*dob-ri den* |
| Sut wyt ti? | Wie geht es dir?<br>*fi gêt es dir* | Jak se máš?<br>*iac se mâsh* |
| Dw i'n dda iawn | Mir geht es sehr gut<br>*mir gêt es ser gwt* | Mám se dobře<br>*mam se dob-zhe* |
| Pwy wyt ti? | Wie heisst du?<br>*fi haist dw* | Jak se jmenuješ?<br>*iac se i-me-nw-iesh* |
| …dw i | Ich heisse…<br>*ich hai-se* | Jmenuji se…<br>*i-me-nw-i se* |
| Hwyl fawr! | Auf Wiedersehen!<br>*awff fi-der-sen* | Nashledanou!<br>*nas-lle-da-no* |

## Gweithgaredd 5

Gellid defnyddio'r adnodd i fyfyrio ar effaith ffoaduriaid Kindertransport ar hanes lleol yng Nghymru. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y diffiniad o **hanes lleol** a roddir. Pa wahaniaethau sydd rhwng hanes lleol, rhanbarthol a chenedlaethol? Beth yw'r

tebygrwydd? Ydyn nhw'n gallu meddwl am unrhyw enghreifftiau o hanes lleol yn eu hardal eu hunain?

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un **Daflen Wybodaeth** a darllen trwyddi. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir yn y daflen, gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn ohebydd i bapur newydd lleol yn ystod yr Ail Ryfel Byd, sydd wedi cael y dasg o ysgrifennu erthygl fer ar ddyfodiad ffoadur/ffoaduriaid Kindertransport i'w hardal. Pa ddeunydd fydden nhw'n ei gynnwys? Beth fyddai'r pennawd? Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu darn byr (rhwng 300 a 400 o eiriau). Dylid neilltuo amser ar ddiwedd y wers i fyfyrio ar ymatebion creadigol y dysgwyr.

## Gweithgaredd 5 – Trafodaeth ddosbarth

Gellid defnyddio'r adnodd ynghyd â'r tri adnodd Kindertransport arall i fyfyrio ar y cynllun Kindertransport yn ei gyfanrwydd. Dylid annog y dysgwyr i drafod eu hargraffiadau o'r cynllun a'u hysgrifennu i lawr.

**Rhai cwestiynau defnyddiol:**

- Sut wnaeth ffoaduriaid Kindertransport ymateb i symud i'r DU/Cymru?
- Pa mor llwyddiannus oedd y cynllun Kindertransport?
- Beth mae'r Kindertransport yn ei ddweud wrthym am agweddau Prydeinig/Cymreig at ffoaduriaid cyn yr Ail Ryfel Byd?
- Sut gallai plant oedd yn ffoaduriaid fod yn teimlo am Brydain/Cymru yn dilyn eu dihangfa?
- Pa wersi allwn ni eu dysgu o'r cynllun Kindertransport wrth ymateb i argyfyngau ffoaduriaid heddiw?